**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Rhagfyr 2008**

## ALLDRO CYFALAF DROS DRO 2008-2009

**Adroddiad gan Dawn Docx,**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau)**

### Diben yr Adroddiad

**1.** Diben yr adroddiad yw rhoi alldro cyfalaf dros dro amcangyfrifedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2008-2009.

### Cyflwyniad

**2. 1** Yn ychwanegol i'r gyllideb refeniw, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub gyllideb gyfalaf hefyd. Benthyca darbodus sy'n ariannu'r cyfalaf, sydd, fel unrhyw forgais, yn gost i'r gyllideb refeniw yn y flwyddyn ar ôl cwblhau pob prosiect.

**2.2** Er y gwneir pob ymgais i gwblhau pob prosiect ym mlwyddyn y ddyraniad, nid yw hyn yn bosib bob amser, gyda rhai adeiladau cymhleth mawr a phrosiectau TGCh yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w cwblhau. Pan fo prosiect yn cymryd dros flwyddyn i'w gwblhau, mae dyraniad y gyllideb sydd weddill yn cael ei drosglwyddo i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae hyn yn wahanol i'r gyllideb refeniw sy'n rhaid cael ei wario o fewn flwyddyn ariannol y dyraniad.

**2.3** Os yw arian yn cael ei drosglwyddo i'r flwyddyn ariannol nesaf, bydd yn oedi'r effeithiau ar y gyllideb refeniw gan na fydd caffaeliad y benthyciad yn cael ei cael ei dderbyn nes dyddiad hwyrach a'r un modd gyda'r costau ad-dalu ariannir o'r gyllideb refeniw.

**Dyraniad y Gyllideb Gyfalaf 2008-09**

**3.1** Gosodwyd cyllideb y rhaglen gyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2008-09 ar £3,837,300 gyda £4,811,387 yn cael ei gario drosodd o'r blynyddoedd blaenorol. Hefyd, derbyniwyd £650,000 mewn arian grant ar gyfer gorsaf dân gymunedol y Rhyl dderbyniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**3.2** Er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth yr aelodau o wariant cyfalaf, mae adroddiad alldro cyfalaf dros dro ynghlwm.

**Crynodeb**

**4.** Disgwylir i'r Gwasanaeth wario £6.4 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ac i gario oddeutu £6.4 miliwn i'r flwyddyn nesaf er mwyn cwblhau prosiectau sy'n weddill. Disgwylir y bydd tanwariant o £0.4 miliwn oherwydd yr arbedion fydd yn cael eu gwneud ar gostau'r tendrau dŵr drwy gytundeb caffael Cymru gyfan.

**Argymhellion**

**5.** Argymhellir fod:

(i) Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.